Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 335

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyllid Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt (SFC)**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Sefydlwyd Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt yn 2017 er mwyn sicrhau cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol bod digwyddiadau a gynhelir yn ardal Llanfair-ym-Muallt yn ystod cyfnod Sioe Frenhinol Cymru'n gweithredu'n ddiogel, ac y cymerir mesurau rhesymol i ostwng risg i gyfranwyr, gwylwyr a swyddogion. Ceisiwyd cyllid i gefnogi Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt i drosglwyddo ymgyrch gyfathrebiadau 2024, ar draws cyfryngau cymdeithasol, pob safle digwyddiadau, canol y dref ei hun, ac eiddo trwyddedig. Bydd hyn yn:

- Gwella diogelwch cyhoeddus yn ystod Sioe Frenhinol Cymru
- Gostwng y galw ar wasanaethau cyhoeddus craidd (nad ydynt yn perthyn i'r digwyddiad)
- Gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gostwng derbyniadau i ysbytai.
- Cynyddu diogelu.

Mae'r gweithgarwch hwn yn cyfrannu i flaenoriaeth atal niwed y Cynllun Heddlu a Throseddu.

**Argymhelliad:**
Cyfrannu £4,500.00 o Gronfa'r Comisiynydd tuag at drosglwyddo ymgyrch gyfathrebiadau 2024 Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn

**Dyddiad: 11/06/24**